**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 435**
**13 Chwefror, 2020 - S4C, Caerfyrddin**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | | |
| | Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol: Staff S4C:** | | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) – eitemau 9 & 10 |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – eitem 7 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Hefyd yn bresennol: aelodau allanol** | Ruth McElroy | (Athro'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru) - eitem 9 |
| **Ymddiheuriadau:** | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 434 a gynhaliwyd ar 16eg Ionawr, 2020**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 434 a gynhaliwyd ar y 16eg o Ionawr 2020.

Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 434**

Nododd GW fod y cyfarfod gyda'r Urdd wedi digwydd.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth. Adroddodd OL fod y gofrestr wedi'i diweddaru a bod llythyr wedi mynd at DCMS o ran ymestyn penodiadau HHE a SL am flwyddyn.

Gofynnwyd a oedd trafodaethau wedi digwydd eto gyda'r Llyfrgell Genedlaethol am yr archif dapiau a nododd OE byddai'n cwrdd rhywbryd i drafod ymhellach.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd taw'r prif fater i drafod oedd y sefyllfa ddiweddaraf gyda chydleoli.

**[Crynodeb:** Eglurodd fod y Pwyllgor Archwilio'r wedi trafod adroddiadau ysgrifenedig ynghylch y prosiect cydleoli'r prynhawn cynt. Diweddarwyd y Bwrdd ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r prosiect.

Yn sgil y drafodaeth, penderfynwyd byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at y BBC. Byddai'r llythyr yn:

- nodi'r oediad pellach i'r "play out" a'r goblygiadau i S4C ar ôl mis Mawrth;
- croesawi'r gwaith o lunio cynllun newydd;
- tanlinellu bod y Bwrdd wedi gofyn i swyddogion baratoi rhestr o bethau sydd angen bod mewn lle, wedi eu profi ac yn gweithio cyn bydd S4C yn cytuno symud;
- awgrymu byddai'n briodol comisiynu "external gateway" o'r prosiect;
- gwahodd y BBC i fynychu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth er mwyn diweddaru aelodau a chyflwyno'r cynllun newydd.]

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, gan gynnwys y materion isod.

**Cyllid**

Roedd swyddogion S4C wrthi'n trafod cyllid diwedd y flwyddyn gyda swyddogion y DCMS.

**Gwleidyddion**

Roedd y cynllun cyswllt gwleidyddol yn parhau i gael ei weithredu. Ers mis Ionawr roedd OE wedi cyfarfod nifer o aelodau o'r gwahanol bleidiau. Roedd y cyfarfodydd wedi bod yn gyfle i'w diweddaru am y gwasanaeth, yr amcanion a rhai o'r heriau sydd o'n blaenau dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf hefyd.

**Cynulliad**

Nodwyd fod OE wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad fel rhan o waith y Pwyllgor i gyfrannu i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom, ac ymgynghoriad y Pwyllgor i ddatganoli darlledu. Yn ogystal mynychodd EM a CHR Sesiwn bwrdd crwn gynhaliodd y Pwyllgor ar 5 Chwefror er mwyn trafod rhai o'r ystyriaethau o gwmpas datganoli

**Ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio**

Nodwyd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu. Penderfynwyd y dylai S4C ymateb i'r ymgynghoriad trwy danlinellu nid dim ond y BBC mae'r ffi drwydded yn ariannu a bod dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau 'ariannu digonol' i S4C.]

7. **Adroddiad Adnoddau Dynol**

Cyflwynodd CW yr adroddiad Adnoddau Dynol a chanlyniadau'r Arolwg Staff.

**[Crynodeb:** Pwrpas yr arolwg staff ym mis Medi 2019 oedd gwella'r gweithle ac i sicrhau bod S4C yn sefydliad llewyrchus a hefyd yn lle da i weithio. Yn ogystal, roedd y Tîm Rheoli yn awyddus i weld os oedd gwelliant wedi bod ers arolwg 2018. Ar y cyfan gwelwyd gwelliant ar ymatebion arolwg 2019 o'u cymharu ag ymatebion 2018 gyda 87% yn ymateb i gymharu gyda 51%. Esboniodd CW prif uchafbwyntiau'r arolwg. Mewn ymateb, roedd S4C am greu Grwpiau Ffocws i drafod y canlyniadau a sut gallent wella.

Nododd y Bwrdd canlyniadau'r arolwg staff a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gan fod cymaint ar y gweill cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Archwilio monitro'r cynnydd pob chwarter.]

8. **Strategaeth 22**

Cyflwynodd OE ei bapur ynglŷn â Strategaeth 22. Byddai cyfle i drafod mewn mwy o fanylder yn y Cwrdd i Ffwrdd ym mis Mawrth.

**[Crynodeb:** Roedd sawl cwestiwn mawr byddai angen ateb yn ystod y misoedd i ddod. Wrth ymateb i'r cwestiynau roedd sawl pecyn o waith i feddwl amdano a byddai angen eu cydlynu wrth i strategaeth gynhwysfawr gael ei llunio.]

9. **Cyflwyniad gan Ruth McElroy**

Chafwyd cyflwyniad gan Ruth McElroy, Athro'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru.

**[Crynodeb:** Yn rhan gyntaf y cyflwyniad, siaradodd RMc ynglŷn â sut mae'r cyd-destun teledu wedi newid ers 2014 a gwariant teledu a thueddiadau cynhyrchu. Yna, aeth ymlaen i drafod beth yw rôl Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gan ddadlau bod hi'n amser bellach siarad am PSM ac nid PSB a taw ethos nid platfform oedd PSM. Roedd rhaid i'r ethos a'r gwerthoedd fod yn amlwg i'r gynulleidfa, a'r berthynas hwnnw'n cael ei amlygu. Roedd egwyddorion cyntaf dal yn bwysig.

Awgrymodd RMc y canlynol o ran pwrpas gwasanaeth cyfryngau cyhoeddus: Annibyniaeth; Plwraliaeth; Cyffredinolrwydd; Atebolrwydd; Ar gael i bawb ac er budd pawb; Safon; Gwreiddioldeb; Amrywiaeth; Arloesi a Herio; Dibynadwy –mae gwasanaethu'r cyhoedd yn gofyn am ddilysrwydd cyhoeddus.

O ran dibenion cyhoeddus, nododd RMc y canlynol:

- Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pob cymuned yn gywir ac yn ddilys yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys cymunedau o ddiddordeb a chymunedau lleiafrifoedd ethnig Cymru;
- Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymwneud â materion polisi democrataidd, diwydiannol a chyhoeddus sy'n ymwneud â Chymru;
- Darparu cynnwys, allbwn a gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel i bob dinesydd a defnyddiwr;
- Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru;
- Cefnogi economi greadigol Cymru;
- Adlewyrchu Cymru i'w hun, i'r Deyrnas Unedig ac i weddill y byd.

Gorffennodd RMc y cyflwyniad gyda sawl cwestiwn i'w drafod.

Nododd y Cadeirydd fod y cyflwyniad yn amserol iawn wrth feddwl am Strategaeth 22. Dywedodd RMc fod neb yn y drafodaeth yn gallu darogan y dyfodol ac nad oedd ateb amlwg i'r heriau yn y byd darlledu. Cytunodd Owen gan nodi Clic fel enghraifft lle nad oedd unrhyw un wedi rhagweld 100,000 yn cofrestru mor sydyn. Cwestiwn arall oedd sut i fesur perfformiad gan fod mesuryddion yn draddodiadol llinol.

Cytunodd y Bwrdd fod deall y gynulleidfa yn hollbwysig ac yn rhan hanfodol o Strategaeth 22. Roedd angen deall y rhesymau dros wylio a pheidio gwylio, yn hytrach na dim ond ffocysu ar faint sy'n gwylio. Yn wleidyddol, roedd RMc hefyd yn credu bod mesur gwerth diwylliannol yn bwysig er yn anodd ei wneud. Nododd fod yr EBU wedi gwneud peth gwaith ar hyn.]

Trafodwyd pwysigrwydd y ffaith fod gwasanaeth S4C ar gael i bawb ac er budd pawb. Roedd ffocysu ar ffigurau gwylio yn gallu fod yn gamarweiniol ar adegau, heb bob amser adlewyrchu gwerthfawrogiad y gynulleidfa. Roedd enghreifftiau o raglenni lle nad oedd ffigurau gwylio uchel ond yn hytrach ymateb a sylwadau positif oedd yn dangos gwerthfawrogiad clir gan y gynulleidfa.

Nododd RMc bwysigrwydd cofio am bobl oedd yn gwerthfawrogi a dathlu'r iaith heb fod yn siaradwyr Cymraeg. Yn yr un modd roedd pobl yn gallu gwerthfawrogi a chefnogi'r ffaith fod S4C ar gael er nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd argaeledd yn bwysig i bobl ond be fyddai'n gorfod newid er mwyn iddynt ymgysylltu gyda'r gwasanaeth? Nododd AR fod y drafodaeth o gwmpas yr iaith yn yr haf yma yn gyfle i ymgysylltu â phobl ar draws Cymru, i ysgogi pobl sydd ddim yn siarad yr iaith a chreu ymwybyddiaeth o S4C.

Diolchodd y Cadeirydd i RMc am ei chyflwyniad diddorol.

10. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd EJ ei adroddiad yn cyfleu perfformiad gwasanaethau S4C ar deledu, ar Clic ac ar y cyfryngau cymdeithasol.]

Nodwyd fod yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3 er gwybodaeth ac wedi'i drafod yn y Pwyllgor Cynnwys y prynhawn blaenorol.

Gofynnodd RhW os oedd modd casglu ystadegau demograffeg siaradwyr Cymraeg ar gyfer y Cwrdd i Ffwrdd. Cytunwyd trefnu papur/cyflwyniad ar gyfer y Cwrdd i Ffwrdd gyda dadansoddiad o'r siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran, demograffeg ayyb.

11. **Adroddiad Ariannol Chwarter 3**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd SW yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Chwarter 3.]

12. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM yr uchafbwyntiau o'r Bwrdd Masnachol gynhaliwyd ar y 5ed o Chwefror. Cafwyd cyflwyniad gan Sky Media.

O ran Stad Llanisien roedd pethau'n mynd yn iawn gyda'r Gymdeithas Alzheimers wedi symud i mewn a thrafodaethau gyda thenantiaid eraill yn parhau. Byddai angen penderfyniad ar beth i'w wneud gyda'r Bloc Technegol ar ôl i S4C symud allan.

Cafwyd diweddariad ar y prosiectau masnachol. Nodwyd fod 2019 wedi bod yn flwyddyn dda i'r gronfa fasnachol gyda gwerth y portffolio yn cynyddu 14.1%.]

13. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd RhW uchafbwyntiau o'r Pwyllgor Cynnwys gynhaliwyd ar y 12fed o Chwefror, gan gynnwys adroddiad newydd am Clic, dyfodol cynnwys ar ôl 2022, a mesuryddion llwyddiant y dyfodol. Penderfynwyd newid diffiniad yr oriau brig (19.00 i 22.00).

14. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio**

Nodwyd fod yr archwilwyr mewnol wedi mynychu'r Pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar rywfaint o'r gwaith hanesyddol. Roedd y gwaith archwilio yn parhau a byddai sawl adroddiad i ystyried yn Ebrill. Trafodwyd hefyd y gofrestr risg a diwygio'r polisi teithio a chynhaliaeth.

15. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

16. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2020 er gwybodaeth i'r Bwrdd. Atgoffwyd y Bwrdd am y Noson Gwylwyr ym Mhontypridd ac Aberystwyth.

17. **Unrhyw Fater Arall**

Atgoffwyd aelodau anweithredol y Bwrdd fod angen diweddaru'r ffurflen datganiad diddordebau.